

# Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Cefn Coed

Dyddiad yr arolygiad: 15 Mehefin 2026

Dyddiad cyhoeddi: 15 Medi 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

**Yn ysgrifenedig:**

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

**Neu:**

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

**ISBN Digidol 978-1-80853-275-7**

**© Hawlfraint y Goron 2026**



# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

## Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

### Rydym yn:

**Annibynnol** – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

**Gwrthrychol** – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

**Pendant** – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

**Cynhwysol** – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

**Cymesur** – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

## Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

## Ein Blaenoriaethau

**Rhoi Pobl yn Gyntaf** – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

**Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd** – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

**Buddsoddi yn Ein Pobl** – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

**Cymryd Camau sydd o Bwys** – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



# Cynnwys

|    |                                                                    |    |
|----|--------------------------------------------------------------------|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom .....                                            | 5  |
| 2. | Crynodeb o'r arolygiad .....                                       | 6  |
| 3. | Yr hyn a nodwyd gennym .....                                       | 9  |
|    | Ansawdd Profiad y Claf .....                                       | 9  |
|    | Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....                           | 12 |
|    | Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....                          | 16 |
| 4. | Y camau nesaf .....                                                | 19 |
|    | Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad | 20 |
|    | Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....                        | 21 |
|    | Atodiad C – Cynllun gwella .....                                   | 22 |



# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Cefn Coed, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 15 Mehefin 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 10 holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd dau gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom gan gleifion yn ymddangos yn yr adroddiad. Oherwydd y nifer isel o ymatebion gan staff, nid yw'r rhain wedi'u cynnwys.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod cleifion yn cael triniaeth urddasol a pharchus drwy gydol eu taith fel claf ym Mhractis Deintyddol Cefn Coed. Dywedodd pob claf fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' ac roedd yr holl adborth a gawsom yn gadarnhaol. Roedd amgylchedd a phrotocolau'r practis yn hyrwyddo gofal urddasol a oedd yn cael ei ddarparu gan staff a oedd yn ymwybodol o breifatrwydd cleifion. Roedd y wybodaeth gyffredinol a oedd ar gael i gleifion yn addas, gan gynnwys gwybodaeth am hyrwyddo iechyd y geg da. Fodd bynnag, gwelsom feysydd i'w gwella o ran rhoi gwybod i gleifion am y gwasanaethau arbenigol sydd ar gael i gleifion gan y practis.

Roedd apwyntiadau yn cael eu rheoli mewn modd amserol er mwyn defnyddio argaeledd ymarferwyr yn effeithiol. Roedd y practis yn cymryd rhan yng ngwasanaeth apwyntiadau brys y GIG ac roedd ganddo gontract llawdriniaeth y geg ar gyfer y bwrdd iechyd. Dywedodd y staff wrthym fod achosion o oedi yn anghyffredin ond bod gweithdrefnau addas ar waith i reoli'r achosion hyn a rhoi gwybod i gleifion amdanynt yn briodol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod wedi gallu cael apwyntiad yn hawdd pan oedd angen un arnynt, a'u bod wedi cael cyngor ar yr hyn i'w wneud mewn argyfwng neu pe baent yn datblygu haint.

Roedd y dulliau cyfathrebu â chleifion yn gadarn a gwelsom fod y 'Cynnig Rhagweithiol' wedi'i ymgorffori yn y ffordd roedd y practis yn gweithio. Roedd hawliau cleifion a staff â nodweddion gwarchodedig yn cael eu cynnal ac roedd cymorth ar waith i gleifion drwy ganiatáu i gleifion ddewis y rhagenwau, yr enwau a'r rhywedd a ffefrir ganddynt ar systemau cofnodi.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ar gael i gleifion yn gywir.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cleifion yn cael eu trin â gofal urddasol a pharchus, gan sicrhau bod eu hawliau'n cael eu cynnal yn llawn
- Roedd apwyntiadau cleifion yn cael eu rheoli mewn modd amserol
- Roedd Iaith Arwyddion Prydain a gwasanaethau iaith eraill ar gael ac roedd y staff yn eu defnyddio'n rheolaidd.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb cyffredinol:

Ar y cyfan, roedd y practis yn cael ei gynnal i safon addas i ddarparu gofal diogel i gleifion. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod y staff yn dilyn gweithdrefnau atal a rheoli heintiau a bod y practis yn 'lân iawn'. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth o leithder a oedd yn edrych fel petai wedi troi'n llwydni yn un o'r adeiladau. Roedd y bwrdd iechyd wedi nodi'r problemau hyn flwyddyn ynghynt ond nid oedd y grŵp corfforaethol wedi mynd i'r afael â nhw eto. Dylid defnyddio'r ardaloedd yr effeithir arnynt cyn lleied â phosibl nes y bydd gwraidd y broblem wedi'i ddatrys.

Mewn rhannau eraill o'r practis, gwelsom brosesau dihalogi effeithiol ar waith i sicrhau bod offer a chyfarpar yn barod i'w defnyddio. Roedd yn ymddangos bod un peiriant pelydr-X wedi'i atgyweirio'n wael, ac mae angen i'r practis wella hyn. Roedd y trefniadau diogelwch tân ac iechyd a diogelwch cyffredinol yn addas, ac roedd polisïau, gweithdrefnau a gwiriadau cydymffurfiaeth ar waith.

Roedd y trefniadau rheoli meddyginiaeth a diogelu yn gadarn ac yn amlwg drwy bolisïau manwl, a gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff yn dilyn y rhain.

Roedd y cofnodion cleifion a welsom yn rhoi disgrifiad ar y pryd o'r triniaethau a roddwyd gan glinigwyr a oedd yn dilyn canllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod gwaith atgyweirio ar yr adeilad yn cael ei gwblhau mewn modd amserol a bod cyfarpar yn cael ei gynnal i safon briodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y polisïau diogelu yn gadarn er mwyn helpu i amddiffyn cleifion agored i niwed.
- Roedd cofnodion cleifion yn rhoi darlun clir a chynhwysfawr o'r gofal a roddwyd
- Roedd ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis yn gyflawn, yn drefnus ac yn hawdd ei ddefnyddio.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

### Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom staff gwybodus, rheolwyr hyderus a systemau rheoli effeithiol a oedd yn helpu i gyflawni canlyniadau iechyd da i gleifion. Gwnaethom nodi bod amgylchedd gwaith cadarnhaol yn y practis a bod pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef yn agored, yn wybodus ac yn broffesiynol.

Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd y prosesau casglu a rhannu gwybodaeth yn addas. Gwelsom nad oedd y gwasanaeth yn defnyddio llawer o staff asiantaeth, a bod holl gofnodion y staff yn dangos cydymffurfiaeth lawn â hyfforddiant gorfodol a gwiriadau cydymffurfio.

Roedd rheolwyr y practis yn goruchwyllo'r systemau adborth ac roedd y dystiolaeth a welsom yn rhoi sicrwydd i ni fod y rhain yn cael eu rheoli'n effeithiol ac er lles pennaf cleifion. Roedd gweithdrefnau cwyno a Dyletswydd Gonestrwydd y practis yn cyd-fynd yn llwyr â'r canllawiau diweddaraf ac roedd y digwyddiadau y gwnaethom edrych arnynt yn dangos tystiolaeth dda o gofnodion ac ymatebion cadarn.

Roedd y practis yn cynnal gweithgareddau gwella ansawdd yn rheolaidd ac roedd y rhain yn helpu i ysgogi gwelliannau ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Gwnaethom nodi cydberthnasau gwaith cryf rhwng y practis a phartneriaid gwasanaeth iechyd eraill.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y trefniadau ar gyfer casglu adborth gan gleifion a'r trefniadau o ran y Ddyletswydd Gonestrwydd yn gadarn
- Roedd strwythurau rheoli clir a threfniadau llywodraethu effeithiol yn helpu i sicrhau bod y practis yn cael ei redeg yn ddidrafferth.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan gleifion

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur cleifion AGIC yn gadarnhaol. Nododd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth roeddent yn ei gael gan y practis yn 'dda iawn'. Dywedodd un claf:

*“Mae'r staff yn eich croesawu ac yn cymryd rhan mewn sgysiau bob dydd sy'n gwneud i chi ymlacio'n fwy.”*

### Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

#### Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom wybodaeth wedi'i harddangos yn yr ardal aros a oedd yn rhoi cyngor i gleifion ar ffyrdd o gynnal iechyd y geg da. Roedd cleifion pediatriig yn cael cynnig pâst dannedd am ddim mer mwyn hybu iechyd y geg da – menter gadarnhaol yn ein barn ni. Roedd y datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion yn gyfredol ac ar gael i gleifion ar-lein neu yn y practis.

Er bod cyfoeth o wybodaeth ddefnyddiol ar gael i gleifion ar wefan y practis, gwnaethom nodi bod orthodonteg â weiren wedi'i gosod yn cael ei hysbysebu fel triniaeth sydd ar gael yn y lleoliad hwn. Yn ystod yr arolygiad, cafodd hyn ei brofi drwy'r porth trefnu apwyntiadau, a oedd yn nodi bod orthodontydd arbenigol ar gael yn y lleoliad hwn a bod bodd trefnu ymgynghoriad wyneb yn wyneb ag ymarferydd. Fodd bynnag, ar ôl i ni drafod hyn â'r staff, daeth i'r amlwg nad oedd orthodontydd yn y practis ac nad oedd triniaeth orthodonteg â weiren wedi'i gosod ar gael. Deallwyd bod hyn o ganlyniad i ddryswch rhwng y wybodaeth a oedd ar gael i'r pencadlys corfforaethol a oedd yn ymdrin â chynnwys y wefan ac ymholiadau cleifion newydd.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ar gael i gleifion yn gywir.**

Roedd y ffioedd ar gyfer triniaethau ac enwau'r ymarferwyr a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) wedi'u harddangos mewn man y gellid eu gweld yn hawdd. Roedd oriau agor a manylion cyswllt brys y practis i'w gweld yn glir ar ddrws ffrynt yr adeilad.

#### Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn cael gofal urddasol a pharchus gan staff y practis

hwn drwy gydol eu taith fel claf. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC wrthym fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch a'u bod yn teimlo bod y staff wedi gwrando arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau. Dywedodd pawb a ymatebodd eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cael y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir, p'un a oedd ganddynt unrhyw nodweddion gwarchodedig ai peidio. ` Dywedodd yr ymatebwyr hefyd fod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol yr apwyntiad, a'u bod wedi cael eu cynnwys gymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau am eu triniaeth.

Roedd amgylchedd y practis yn hyrwyddo gofal urddasol ac roedd y staff yn cymryd camau i sicrhau preifatrwydd cleifion wrth gael eu trin yn y deintyddfeydd. Roedd y derbynfeydd a'r ardaloedd aros yn y ddau adeilad wedi'u cysylltu, ond ni chlywsom unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrafod wyneb yn wyneb na thros y ffôn. Dywedodd y staff wrthym nad oedd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei hailadrodd dros y ffôn, a bod ystafelloedd ar wahân yn cael eu defnyddio pan oedd angen cynnal sgysiau cyfrinachol.

Roedd staff y practis wedi llofnodi cytundebau cyfrinachedd a oedd yn amlinellu eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu gwybodaeth cleifion. Gwelsom fod naw egwyddor craidd safonau mosegol a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol cyffredinol wedi'u harddangos.

## **Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Nododd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod eu hiechyd y geg wedi cael ei esbonio iddynt mewn ffordd y gallent ei deall, a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal clir ar sut i gynnal iechyd y geg da. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, gan gynnwys risgiau a manteision pob opsiwn. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y costau wedi cael eu hegluro iddynt cyn y driniaeth, a dywedodd pob un ohonynt eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon ar ôl triniaeth.

## **Amserol**

### **Gofal amserol**

Gwelsom fod prosesau rheoli apwyntiadau effeithiol ar waith, a oedd yn gwneud defnydd priodol o amser yr ymarferwyr. Esboniodd y staff fod cleifion yn aros tua chwe wythnos rhwng apwyntiadau am driniaeth yn gyffredinol. Gallai cleifion drefnu apwyntiadau yn y dyfodol wyneb yn wyneb ar ôl eu triniaethau neu dros y ffôn, a gallent drefnu rhai apwyntiadau cyffredinol ar-lein hefyd. Dywedodd y staff wrthym mai anaml y byddai apwyntiadau yn rhedeg yn hwyr, ond pe bai hynny'n digwydd, y byddai'r clinigwyr yn hysbysu'r dderbynfa fel bod modd rhoi gwybod i'r cleifion. Byddai cleifion yn cael

gwybod am oedi hirach dros y ffôn a byddent yn cael cynnig apwyntiadau eraill ar gais. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i holiadur cleifion AGIC ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Dywedwyd wrthym fod apwyntiadau yn cael eu trefnu yn unol ag argaeledd cleifion lle bynnag y bo'n bosibl.

Gwelsom fod tîm y dderbynfa yn defnyddio system addas ar gyfer brysbennu cleifion dros y ffôn er mwyn rhoi blaenoriaeth i'r rhai yr oedd angen gofal brys arnynt fwyaf, gan ymgynghori â'r ymarferwyr lle bo angen. Gwelsom fod amser yn cael ei neilltuo yn nyddiadur y practis bob dydd ar gyfer apwyntiadau brys, gan gynnwys Sesiynau Mynediad y GIG. Dywedodd y staff wrthym na fyddai unrhyw glaf yn aros dros 24 awr i gael ei weld, a dywedwyd wrthym fod gan y practis contract llawdriniaeth y geg ar gyfer y bwrdd iechyd. Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau yn cael ei ddarparu er mwyn i gleifion allu cysylltu â'r practis mewn argyfwng. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC eu bod wedi cael canllawiau clir ar yr hyn i'w wneud mewn argyfwng neu pe baent yn datblygu haint, a dywedodd y rhan fwyaf y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

## **Teg**

### **Cyfathrebu ac iaith**

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i helpu i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y clinigwyr a'r cleifion. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd cyfathrebu â chleifion yn eu dewis iaith. Roedd gwasanaeth Language Line yn cael ei ddefnyddio i gyfathrebu â chleifion yn ôl yr angen, gan gynnwys yn iaith Arwyddion Prydain, ac roedd rhywfaint o wybodaeth i gleifion ar gael mewn fformatau gwahanol, megis fersiynau hawdd eu deall neu ffont mwy. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn darparu gwybodaeth fwy arbenigol ar gais cleifion.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd y practis yn gwneud ymdrech i ddarparu dogfennaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, lle y bo'n bosibl. Dywedodd y staff wrthym fod y bwrdd iechyd wedi eu cefnogi i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ar waith i gleifion. Roedd dau aelod o'r staff yn siarad Cymraeg ac yn gwisgo bathodynau 'Iaith Gwaith' i ddangos i gleifion eu bod yn siarad Cymraeg. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant ar gael i unrhyw aelod o'r staff a oedd yn awyddus i ddysgu Cymraeg.

### **Hawliau a chydraddoldeb**

Gwelsom fod y practis yn cefnogi hawliau unigolion ac yn eu trin yn gyfartal. Roedd polisïau a gweithdrefnau addas ar waith, ac roedd y staff yn ymgymryd â hyfforddiant gorfodol penodol i ddiogelu hawliau cleifion. Roedd prosesau ar waith i atal achosion o aflonyddu neu wahaniaethu.

Rhoddodd y staff enghreifftiau lle roedd newidiadau wedi cael eu gwneud i'r

amgylchedd fel addasiad rhesymol i gleifion a chyflogeion, gan gynnwys cadeiriau arbenigol ar gyfer aelodau o'r staff a lleoedd parcio anabl i gleifion. Gwelsom fod hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu cynnal drwy ganiatáu i gleifion ddewis y rhagenwau, yr enwau a'r rhywedd a ffefrir ganddynt ar eu cofnodion.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

### Diogel

#### Rheoli risg

Roedd y practis wedi'i leoli mewn dau adeilad ar wahân, a oedd wedi'u cysylltu drwy faes parcio. Roedd chwe deintyddfa i gyd, a dwy dderbynfa gydag ystafelloedd aros. Clywsom y llinellau ffôn yn gweithio a gwelsom fod y toiledau i gleifion a staff yn cael eu cadw'n lân ac yn gynnwys cyfarpar priodol. Roedd y staff yn newid yn y toiledau neu yn ystafelloedd y staff ac roedd loceri ar gael ar gyfer eu heiddo personol. Gwelsom fod y toiledau yn cynnwys cyfarpar ar gyfer y rhai ag anawsterau symudedd.

Ar y cyfan, roedd yr amgylchedd yn y ddau adeilad mewn cyflwr da ac yn daclus. Roedd yr adeilad yn cefn yn fwy newydd ac roedd cael ei gynnal i safon uchel. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod lleithder wedi bod yn broblem yn adeilad blaen hyn y practis ers peth amser, a'i fod wedi datblygu'n llwydni yn ôl pob golwg. Gwelsom fod y broblem hon o ran lleithder wedi'i nodi mewn adroddiad a luniwyd ar ôl ymweliad gan y bwrdd iechyd ym mis Mai 2025, a oedd yn nodi:

*“The main building has significant areas of damp – evidence of the building being patched up, but probably requires re-rendering before the internal damp can be addressed. Surgery three had strong smell of damp despite the extractor fan being on”.*

Ar y pryd, roedd y bwrdd iechyd yn disgwyl i welliannau gael eu gwneud o fewn tri mis. Gwnaethom nodi bod gwaith adnewyddu wedi cael ei wneud yn ddiweddar i gael gwared ar ryw faint o'r hyn a oedd yn edrych fel llwydni yn yr ardaloedd a ddefnyddir gan gleifion, ond roedd ychydig o lwydni i'w weld o hyd o dan silffoedd ffenestri a'r tu ôl i gypyrddau mewn dwy ddeintyddfa. Gwelsom dystiolaeth bod lleithder wedi bod yn ystafell ddihalogi'r adeilad blaen yn ddiweddar hefyd. Deallwyd bod y practis wedi cael dyfynbris i ail-rendro y tu allan i'r adeilad, sef achos gwreiddiol y problemau hyn yn ôl pob golwg, ond nad oedd y grŵp corfforaethol wedi ariannu'r gwaith hwn eto. Er bod ymdrechion wedi'u gwneud y tu mewn i'r adeilad i ddatrys y problemau hyn ar sawl achlysur, nid oedd y gwasanaeth wedi mynd i'r afael â'r achos sylfaenol yn briodol. Roedd y lleithder yn achosi'r hyn a oedd yn edrych fel llwydni, ac yn yr hirdymor gall hyn greu amgylchedd gwaith afiach ac effeithio ar iechyd cleifion, yn enwedig y rhai sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol.

### **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:**

- **Bod y deintyddfeydd lle mae'r hyn sy'n edrych fel llwydni yn bresennol yn cael eu defnyddio cyn lleied â phosibl.**
- **Bod achos sylfaenol y lleithder yn cael ei ddatrys mewn modd amserol.**

Roedd polisïau a gweithdrefnau boddhaol ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant cleifion a staff. Roedd tystysgrifau diogelwch ar gael ar gyfer profion offer cludadwy, profion bob pum mlynedd ar y gwifrau trydanol sefydlog a'r gwiriadau diogelwch nwy blynyddol. Gwelsom fod asesiadau risg ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch wedi cael eu cwblhau a'u bod yn cyrraedd y safonau disgwyliedig.

Gwelsom fod trefniadau diogelwch tân cynhwysfawr ar waith. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys cynnal a chadw a phrofi'r cyfarpar diogelwch tân yn rheolaidd, ynghyd ag arwyddion clir ar gyfer allanfeydd tân ac arwyddion dim smygu clir. Roedd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr y practis a gwybodaeth gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'u harddangos.

### **Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn amlinellu'r prosesau yr oedd disgwyl i'r staff eu dilyn i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Dywedodd yr ymatebwyr i holiadur cleifion AGIC fod y practis yn 'lân iawn' a'u bod yn teimlo bod y staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau. Dywedodd un claf:

*"Bob amser yn gwisgo menig, masgiau a ffedogau."*

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael yn hwylus i bob aelod o'r staff. Roedd arferion hylendid dwylo cyffredinol yn cael eu hyrwyddo drwy weithdrefnau ac arwyddion yn yr ardaloedd i gleifion a staff. Gwnaethom nodi bod trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli anafiadau a achosir gan nodwydd, gydag asesiadau risg yn dogfennu'r peryglon sy'n gysylltiedig ag offer miniog. Roedd gwasanaethau iechyd galwedigaethol yn cael eu darparu drwy'r bwrdd iechyd lleol, ac roedd y manylion hyn ar gael yn hwylus i'r staff.

Roedd cyfarpar deintyddol a ddelir â llaw y practis mewn cyflwr da ac roedd digon o eitemau ar gael i allu eu dihalogi'n effeithiol ar ôl eu defnyddio. Gwelsom fod eitemau untro yn cael eu defnyddio lle bo hynny'n briodol, a bod y cyfleusterau clinigol a'r cyfarpar a oedd yn cael eu defnyddio yn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol i cleifion. Wrth edrych ar y peiriannau pelydr-X, gwelsom fod y paent gwreiddiol ar y ddyfais yn neintyddfa un wedi plicio i ffwrdd, a bod rhywun wedi peintio drosto gyda'r hyn a oedd yn edrych fel paent domestig. Nid oedd modd i ni gadarnhau a ellid dihalogi'r paent hwn yn effeithiol, ac nid oedd yn edrych yn ddigon cadarn ar gyfer darn o gyfarpar a ddefnyddir mor aml. Roedd cyfarpar a oedd wedi'i gynnal a'i gadw'n wael ac na ellid ei ddihalogi yn peri risg i gleifion, ac mae'n rhaid i'r lleoliad fynd i'r afael â hyn.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob darn o gyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol fel y gellir ei ddihalogi'n effeithiol.**

Roedd y gweithdrefnau ar gyfer dihalogi a sterileiddio cyfarpar deintyddol aml dro yn y ddwy ystafell ddihalogi yn gadarn. Gwelsom fod cofnodion gwasanaethu ar gyfer pob dyfais ar waith ac yn briodol, ac roedd y cofnodion o wiriadau dyddiol a phrofion ar gyfer y ddau beiriant a welsom yn gynhwysfawr. Roedd y cofnodion hyfforddiant yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar y lefel gywir ar atal heintiau a dihalogi. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio a'i waredu'n gywir o dan gongtract gwaredu gwastraff addas. Roedd y trefniadau ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn foddhaol.

## **Rheoli meddyginiaethau**

Gwelsom fod y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer trin, storio, defnyddio a gwaredu unrhyw feddyginiaethau yn gadarn. Roedd padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n briodol, ac roedd mesurau ar waith i gadw cofnod o'r rhai a ddosbarthwyd.

Roedd mesurau addas ar waith i sicrhau bod argyfyngau meddygol yn cael eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd cofnodion y staff yn dangos eu bod yn meddu ar gymwysterau ym maes adfywio cardiopwlmonaidd a chymorth cyntaf. Roedd y silindrau ocsigen wedi cael eu gwasanaethu'n briodol, ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar sut i'w defnyddio. Wrth archwilio'r cyfarpar brys, gwelsom fod yr holl eitemau yn bresennol ac yn gyfredol. Gwnaethom nodi bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r holl gyfarpar brys a bod y cyfarpar yn barod i'w ddefnyddio pe bai argyfwng.

## **Diogelu plant ac oedolion**

Roedd gweithdrefnau diogelu priodol a chyfredol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion. Roedd y gweithdrefnau'n cynnwys manylion cyswllt o fewn yr awdurdod lleol ac yn enwi arweinydd diogelu. Roedd copi o Weithdrefnau Diogelu Cymru ar gael i gyd-fynd â'r polisi hwn. Roedd diweddariadau i'r polisiâu a'r gweithdrefnau diogelu yn cael eu cyfleu drwy hyfforddiant a'r bwrdd iechyd lleol. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant hyd at lefel briodol ar ddiogelu plant ac oedolion.

## **Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol**

Gwelsom fod y dyfeisiau meddygol a'r cyfarpar clinigol mewn cyflwr da yn ôl pob golwg ac yn addas at y diben, oni bai am y peiriant pelydr-X fel y nodir mewn man arall yn yr adroddiad hwn. Gwelsom fod holl ddyfeisiau a chyfarpar y practis yn cael eu defnyddio mewn modd a oedd yn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol ac roedd y staff a welsom yn ystod yr arolygiad yn ymddangos yn hyderus wrth ddefnyddio'r cyfarpar. Cadarnhaodd y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar ddefnyddio cyfarpar yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd trefniadau gwasanaethu ar waith ac roedd y practis yn ymateb yn gyflym i unrhyw fethiant system ar gyfer yr holl gyfarpar a archwiliwyd gennym.

Roedd ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis yn gyflawn, a gwelsom fod copïau o'r rheolau lleol ar gael yn hwylus wrth ymyl pob dyfais pelydr-X. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar gyfer eu rolau ar gysylltiadau ag ymbelydredd. Roedd y clinigwyr yn amlinellu'n glir y trafodaethau a gynhaliwyd mewn perthynas â risgiau a manteision dod i gysylltiad ag ymbelydredd yng nghofnodion cleifion a gwelsom fod y wybodaeth hon wedi'i harddangos hefyd.

## **Effeithiol**

### **Gofal effeithiol**

Gwelsom fod y staff yn asesu cleifion ac yn gwneud diagnosis o anghenion cleifion yn ddiogel. Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom yn dangos bod triniaethau yn cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol, ac yn unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol. Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent hefyd yn gwybod pryd i geisio cyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i gofnodi bod cleifion yn deall y triniaethau llawfeddygol ac yn cydsynio iddynt, ynghyd â rhestrau gwirio cynhwysfawr er mwyn atal achosion o dynnu'r dant anghywir.

### **Cofnodion cleifion**

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o bump claf yn ystod ein harolygiad. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw ar system ddigidol ddiogel, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Ar y cyfan, roedd y cofnodion a welsom yn rhoi darlun priodol o'r gofal a roddwyd i'r cleifion. Roedd y cofnodion yn cynnwys siartiau sylfaenol llawn wedi'u nodi'n effeithiol, rhesymau dros fynychu, sgrinio ar gyfer canser y geg, yn ogystal â disgrifiad o'r triniaethau a roddwyd.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn iddynt gael triniaeth.

## Effeithlon

### Effeithlon

Gwelsom fod y clinigwyr yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr a oedd yn diwallu anghenion eu cleifion. Roedd cleifion yn symud yn effeithlon ar hyd llwybrau trin mewnol ac allanol. Roedd atgyfeiriadau brys yn cael eu cofnodi'n briodol a'u holrhain yn rhagweithiol mewn modd amserol gan reolwr y practis. Gwelsom fod apwyntiadau yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan aelodau o staff â chymysgedd priodol o sgiliau.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

### Arweinyddiaeth

#### Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Nodwyd gennym fod strwythurau rheoli clir ar waith er mwyn helpu i redeg y practis yn effeithiol. Roedd rheolwr y practis yn hyderus a dywedodd wrthym ei bod yn teimlo bod ganddi'r sgiliau a'r wybodaeth gywir i gyflawni ei rôl arwain yn effeithiol. Roedd y practis yn rhan o grŵp Rodericks Dental, a oedd yn golygu bod y rheolwyr yn gallu cael mewnbyn gan amrywiaeth o wasanaethau corfforaethol a rheolwyr rhanbarthol.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff ffurfiol yn cael eu cynnal yn fisol a bod pob aelod o'r staff yn bresennol ynddynt. Ar ôl edrych ar sampl o gofnodion y cyfarfodydd hyn, gwelsom fod trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch rheoli heintiau, diogelu a chwynion.

Roedd system ddigidol addas yn cael ei defnyddio i nodi, cofnodi a rheoli risgiau, materion ac unrhyw ffactorau lliniaru. Roedd rheolwr y practis yn rhannu hysbysiadau diogelwch â'r staff yn ystod cyfarfodydd, a byddai unrhyw hysbysiadau perthnasol yn cael eu harddangos.

Roedd holl bolisïau'r practis yn cael eu cadw mewn porth cydymffurfiaeth newydd yr oedd y practis wedi newid iddo yn ddiweddar. Roedd y polisïau a welsom yn gyfredol ac yn gynhwysfawr, a gwelsom fod newidiadau yn cael eu rhannu â'r staff mewn modd effeithiol.

## Y Gweithlu

### Gweithlu medrus a galluog

Ar y cyfan, gwelsom amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn wybodus ac yn broffesiynol, ac roedd y rhyngweithio a welsom rhwng y staff yn dangos eu bod yn cefnogi ei gilydd yn gadarn. Gwelsom fod gweithdrefnau sefydlu yn cael eu goruchwyllo gan reolwr y practis ac roedd y dystiolaeth a welsom yn dangos bod y gweithdrefnau hyn yn gadarn. Roedd y practis yn gweithredu system rota i sicrhau bod nifer priodol o staff wedi'u hyfforddi'n addas yn gweithio ar unrhyw adeg benodol. Prin oedd y defnydd o staff asiantaeth, ac ni allai'r rheolwyr ond feddwl am ambell achlysur lle roeddent wedi cael eu defnyddio yn ddiweddar. Roedd y system a oedd ar waith ar gyfer gwirio a sefydlu staff asiantaeth a ddefnyddiwyd yn y practis yn briodol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion personél pum aelod o staff sy'n gweithio yn y practis. Yn y cofnodion hyn, gwelsom fod gan bob aelod o'r staff gofrestrïadau cyfredol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, bod imiwnedd Hepatitis B wedi'i ddogfennu ar eu cyfer a'u bod wedi bod yn destun gwiriadau geirda cyn cyflogi. Roedd gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) hefyd wedi'i gofnodi yn ffeil pob aelod o'r staff.

Roedd y cofnodion staff a welsom yn dangos cydymffurfiaeth lawn â'r holl hyfforddiant gorfodol. Roedd pob aelod o'r staff yn cael amser i ymgymryd â hyfforddiant, a dywedwyd wrthym fod y staff yn cael eu cefnogi i gwblhau hyfforddiant ychwanegol sy'n berthnasol i'w rolau a oedd yn amlwg yn y cofnodion a welsom. Roedd pob aelod o staff yn y sampl a welsom wedi cael arfarniad. Roedd gan reolwr y practis system addas ar waith i fonitro arfarniadau a chydymffurfiaeth â hyfforddiant.

Roedd arfarniadau'n cael eu cynnal yn flynyddol ac eglurodd y rheolwyr broses addas ar gyfer rheoli unrhyw broblemau'n ymwneud â pherfformiad. Roedd polisi chwythu'r chwiban y practis yn rhoi canllawiau i'r staff ar sut y gallent fynegi pryderon.

## Diwylliant

### Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion. Roedd cleifion yn cael dolenni i adolygiadau ar-lein yn dilyn apwyntiadau, ac roedd blwch awgrymiadau ar gael i gleifion yn y dderbynfa. Dywedwyd wrthym fod y blwch awgrymiadau yn cael ei adolygu'n rheolaidd, a bod rheolwr y practis yn gwirio ffurflenni ar-lein pan oeddent yn dod i law. Roedd y practis yn ymateb i adborth a gafwyd ar-lein ac unrhyw adborth o'r blwch awgrymiadau yn y practis. Roedd y practis a'i grŵp

corfforaethol yn archwilio adborth gan gleifion bob chwe mis er mwyn sicrhau eu bod yn nodi unrhyw themâu cyffredin ac yn mynd i'r afael â nhw.

Roedd y polisi cwynion yn cyd-fynd â Phroses Cwynion, Digwyddiadau ac Iawndal GIG Cymru ac roedd ar gael i gleifion heb fod angen iddynt ofyn am gopi. Roedd y weithdrefn gwyno yn enwi'r aelod o staff y dylai cleifion gysylltu ag ef. Roedd cwynion llafar yn cael eu cofnodi ar system cwynion y practis. Roedd y dull o uwchgyfeirio cwyn wedi'i nodi yn y polisi cwynion i gleifion, gan gynnwys manylion cyswllt AGIC, y bwrdd iechyd lleol a'r gwasanaeth eirioli dros gleifion, sef Llais. Gwnaethom edrych ar y tair cwyn yr oedd y practis wedi eu cael yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac ni welsom unrhyw themâu cyffredin, ac roedd pob un ohonynt wedi cael eu trin yn unol â pholisi'r practis.

Gwelsom fod polisi'r practis ar gyfer rheoli digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r Dyletswydd Gonestrwydd yn addas a bod hyfforddiant yn orfodol i bob aelod o'r staff. Er nad oedd unrhyw ddigwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â'r Dyletswydd Gonestrwydd i ni eu hadolygu, cawsom sicrwydd y byddai'r broses a oedd ar waith yn ymdrin â'r rhain yn unol â'r canllawiau gofynnol.

## **Dysgu, gwella ac ymchwil**

### **Gweithgareddau gwella ansawdd**

Gwelsom fod dull rhagweithiol o wella ansawdd ar waith a bod yr holl weithgareddau gwella ansawdd gorfodol yn cael eu cynnal. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau cynhwysfawr a rheolaidd o gofnodion cleifion, ansawdd delweddau radiograffig, hylendid dwylo, prosesau presgripsiynu gwrthfotigau yn ogystal ag archwiliadau atal a rheoli heintiau. Roedd y practis wedi ymgymryd â'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth ac roedd yn bractis peilot ar gyfer y Matrics Cynaliadwyedd, yr oedd y ddau ohonynt yn cael eu cwblhau drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

## **Dull systemau cyfan**

### **Gweithio mewn partneriaeth a datblygu**

Esboniodd y staff sut roeddent yn cynnal cydberthnasau gwaith da gyda phartneriaid eraill yn y system iechyd, gan gynnwys y feddygfa a'r fferyllfa leol. Gwelsom fod proses briodol ar waith i fonitro a chynnal atgyfeiriadau at bartneriaid gofal iechyd ac atgyfeiriadau gan bartneriaid gofal iechyd.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgwyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd                                    | Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgwyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|-------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------|-----------------------------------------|--------------------------------|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. |                                                         |                                         |                                |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth: Practis Deintyddol Cefn Coed**

**Dyddiad yr arolygiad: 15 Mehefin 2026**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddifffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

### Canfyddiadau

Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.

# Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Cefn Coed

### Dyddiad yr arolygiad: 15 Mehefin 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          | Yr hyn sydd angen ei wella                                                                     | Safon / Rheoliad                                                | Camau gweithredu gan y gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             | Swyddog cyfrifol | Amserlen       |
|-----------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------|----------------|
| 1.                    | Gwnaethom nodi bod orthodonteg â weiren wedi'i gosod yn cael ei hysbysebu fel triniaeth a oedd ar gael yn y lleoliad hwn. Yn ystod yr arolygiad, cafodd hyn ei brofi drwy'r porth trefnu apwyntiadau, a oedd yn nodi bod orthodontydd arbenigol ar gael yn y lleoliad hwn a bod bodd trefnu ymgynghoriad wyneb yn wyneb ag ymarferydd. Fodd bynnag, ar ôl i ni drafod hyn â'r staff, daeth i'r amlwg nad oedd orthodontydd yn y practis ac nad oedd triniaeth orthodonteg â weiren wedi'i gosod ar gael. | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ar gael i gleifion yn gywir. | Rheoliad 13 (9) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. | Cymerwyd camau ar unwaith, ac mae'r wefan a'r wybodaeth i gleifion am drefnu apwyntiadau wedi cael eu hadolygu a'u diwygio i adlewyrchu'r gwasanaethau sydd ar gael yn y practis yn gywir. Mae prosesau hefyd wedi cael eu cryfhau i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y dyfodol i wasanaethau clinigol yn cael eu cyfleu'n brydlon fel bod yr holl wybodaeth sydd ar gael i gleifion yn gywir ac yn gyfredol. | Charlotte Evans  | Wedi'i gwblhau |

|    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                                                                 |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |                                         |             |
|----|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------|-------------|
|    | Deallwyd bod hyn o ganlyniad i ddryswch rhwng y wybodaeth a oedd ar gael i'r pencadlys corfforaethol a oedd yn ymdrin â chynnwys y wefan ac ymholiadau cleifion newydd.                                                                                                                                                                                                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                                                                 |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |                                         |             |
| 2. | <p>Dywedwyd wrthym fod lleithder wedi bod yn broblem yn adeilad blaen hŷn y practis ers peth amser, a'i fod wedi datblygu'n llwydni yn ôl pob golwg. Gwelsom fod y lleithder wedi'i nodi mewn adroddiad a luniwyd ar ôl ymweliad gan y bwrdd iechyd ym mis Mai 2025. Roedd y bwrdd iechyd wedi ei gwneud yn ofynnol i welliannau gael eu gwneud o fewn tri mis.</p> <p>Gwnaethom nodi bod gwaith adnewyddu wedi cael ei wneud yn ddiweddar i gael gwared</p> | <p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod y deintyddfeydd lle mae'r hyn sy'n edrych fel llwydni yn bresennol yn cael eu defnyddio cyn lleied â phosibl</li> <li>• Bod achos sylfaenol y lleithder yn cael ei ddatrys mewn modd amserol.</li> </ul> | Rheoliad 22 (2) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. | O ganlyniad i fethiant y gwaith adferol a gwblhawyd. Rydym yn trefnu i fonitorau di-wifr gael eu gosod i fesur y lleithder a'r tymheredd yn yr ystafelloedd yr effeithir arnynt er mwyn ymchwilio i'r ffynhonnell. Yn dilyn ymchwiliad, byddwn yn ceisio cyngor proffesiynol gan y Property Care Association ar unrhyw waith adfer ychwanegol sydd ei angen. | Uwch-gydlunydd Cyfleusterau Rhanbarthol | Hydref 2026 |

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |  |  |  |  |  |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|--|--|--|
| <p>ar rywfaint o'r hyn a oedd yn edrych fel llwydni yn yr ardaloedd a ddefnyddir gan gleifion, ond roedd ychydig o lwydni i'w weld o hyd o dan silffoedd ffenestri a'r tu ôl i gypyrddau mewn dwy ddeintyddfa. Gwelsom dystiolaeth bod lleithder wedi bod yn ystafell ddihalogi'r adeilad blaen yn ddiweddar hefyd.</p> <p>Er bod ymdrechion wedi'u gwneud y tu mewn i'r adeilad i ddatrys y problemau hyn ar sawl achlysur, nid oedd y gwasanaeth wedi mynd i'r afael â'r achos sylfaenol yn briodol. Roedd y lleithder yn achosi'r hyn a oedd yn edrych fel llwydni, ac yn yr hirdymor gall hyn greu amgylchedd gwaith afiach ac effeithio ar iechyd cleifion, yn</p> |  |  |  |  |  |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|--|--|--|

|    |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |                                                                                                                                                    |                                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                 |                                                |                    |
|----|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------|--------------------|
|    | enwedig y rhai sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |                                                                                                                                                    |                                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                 |                                                |                    |
| 3. | <p>Wrth edrych ar y peiriannau pelydr-X, gwelsom fod y paent gwreiddiol ar y ddyfais yn neintyddfa un wedi plicio i ffwrdd, a bod rhywun wedi peintio drosto gyda'r hyn a oedd yn edrych fel paent domestig. Nid oedd modd i ni gadarnhau a ellid dihalogi'r paent hwn yn effeithiol, ac nid oedd yn edrych yn ddigon cadarn ar gyfer darn o gyfarpar a ddefnyddir mor aml. Roedd cyfarpar a oedd wedi'i gynnal a'i gadw'n wael ac na ellid ei ddihalogi yn peri risg i gleifion, ac mae'n rhaid i'r lleoliad fynd i'r afael â hyn.</p> | <p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob darn o gyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol fel y gellir ei ddihalogi'n effeithiol.</p> | <p>Rheoliad 13 (3) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.</p> | <p>Rydym wedi ymgynghori ag arbenigwr paent adnewyddu symudol i asesu a ellir paratoi ac ail-beintio'r peiriant yn y fan a'r lle. Yn dibynnu ar y canlyniad, bydd datrysiadau pellach yn cael eu harchwilio i fynd i'r afael â'r mater hwn.</p> | <p>Uwch-gydlunydd Cyfleusterau Rhanbarthol</p> | <p>Hydref 2026</p> |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth: C Evans**

**Enw (priflythrennau): Charlotte Evans**

**Swydd: Rheolwr y Practis**

**Dyddiad: 17/07/2026**